Y bêl ddu

(gweld cyfle / dyfalbarhad)

Oes gennych chi ddiddordeb mewn snwcer? Mae rhai'n casáu'r gêm â chas perffaith; mae eraill yn gwirioni ac yn ei gwylio pob cyfle gân nhw. Mae hyn yn wir am bob math o chwaraeon, mae'n siŵr – rhai'n casáu eraill yn gwirioni. Ond, beth bynnag yw eich barn, mae'n gallu bod yn gêm gyffrous iawn, yn enwedig yn y rowndiau terfynol. Felly y bu hi yn y rownd derfynol ym 1985.

Roedd hi'n ddau o'r gloch y bore ac ar hyd a lled y Deyrnas Unedig roedd miliynau wedi aros ar eu traed i wylio'r rownd derfynol. Roedd y pen coch, Steve Davis, yn awyddus iawn i amddiffyn ei deitl fel pencampwr ddwy waith yn olynol. Roedd Davis â'i fryd ar y bencampwriaeth am y trydydd tro. Ei wrthwynebydd y tro hwn oedd Dennis Taylor â'i sbectol bwrpasol i'w helpu i botio'r peli. Y tro diwethaf i Taylor fod yn y ffeinal oedd ym 1979 pan gollodd i'r Cymro, Terry Griffiths.

Roedd y rownd derfynol i'w chwarae dros 35 ffrâm, felly y chwaraewr cyntaf i ennill 18 ffrâm fyddai'r enillydd. Roedd y tensiwn i'w deimlo drwy'r adeilad. Roedd hi'n 17 ffrâm yr un. Pwy bynnag fyddai'n ennill y ffrâm olaf fyddai'r Pencampwr Byd! Tua chanol y rownd roedd Taylor ar y blaen, yna dyma Davis yn gwthio ymlaen. Yn y diwedd dim ond y bêl ddu oedd ar ôl ar y bwrdd. Pwy bynnag fyddai'n suddo'r bêl ddu i'r boced fyddai'r pencampwr. Tybed oedd Steve Davis yn mynd i'w gwneud hi am y trydydd tro'n olynol? Neu a oedd Dennis Taylor am ddod yn bencampwr am y tro cyntaf erioed yn ei fywyd? Roedd pawb yn yr awditoriwm yn dal eu hanadl ynghyd â'r miliynau oedd yn gwylio a gwrando.

Cyfle Davis oedd hi i botio'r bêl ddu. Doedd dim dwywaith mai hon fyddai'r ergyd olaf a Davis yn dod yn bencampwr am y trydydd tro. Ond, methodd, a tharodd y bêl ddu ymyl y bwrdd! Y fath siom! Roedd y cefnogwyr i gyd wedi rhyfeddu. Camodd Taylor ymlaen i hyrddio'r bêl i'r boced ac i ddod, felly, yn bencampwr. Plygodd yn araf dros ymyl y bwrdd. Bron na fuasech chi'n clywed pìn yn syrthio yn yr adeilad. Cododd ei ben i edrych unwaith eto ar y ddwy bêl, y wen a'r ddu. Ergydiodd y bêl, ond methodd yntau. Go brin y byddai Davis yn methu'r eildro. Ond er mawr syndod iddo'i hun ac i bawb arall methodd y tro hwn hefyd. Rhoddodd ail gyfle i Dennis Taylor.

Roedd y tensiwn erbyn hyn yn llethol gyda Taylor yn cerdded tua'r bwrdd. Anelodd a thrawodd y bêl wen i gyfeiriad y bêl ddu. Daliodd pob un ei anadl. Cododd bonllef nes diasbedain drwy'r awditoriwm – roedd y bêl ddu'n gwingo yn y boced. Suddodd Taylor ar ei liniau gan godi'i freichiau i'r awyr. Gwnaeth yn fawr o'i gyfle a daeth, o'r diwedd, yn bencampwr byd. Fel y digwyddodd, hwn oedd ei gyfle olaf i ddod yn bencampwr byd. Er iddo ymddangos wedyn ni ddaeth y cyfle i'w ran.

Adnod: "Felly, gwyliwch eich ymddygiad yn ofalus, gan fyw, nid fel rhai annoeth ond fel rhai doeth. Daliwch ar eich cyfle, oherwydd mae'r dyddiau'n ddrwg." Effesiaid 5:15

Gweddi: O Dduw, Ein Tad, rho gyfle i mi heddiw i wneud fy ngorau i helpu pobl eraill; a phan fydd cyfle'n dod gwna fi'n barod i weithredu y munud hwnnw. Amen.

Trafod:

- Beth yw eich barn chi am bobl sy'n dweud mai gêm hunanol i unigolyn ydi snwcer?
- Pa mor aml ydan ni'n colli cyfle? Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau yn eich profiad chi?